# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 10

CYFFREDINOL

### 171 Dehongli

(1) Yn y Ddeddf hon—

mae "aelod" ("*member*")—

(a) mewn perthynas â phrif gyngor, yn golygu cynghorydd i'r cyngor (sy'n cynnwys cynghorydd a etholwyd yn gadeirydd neu'n aelod llywyddol, neu a benodwyd yn is-gadeirydd neu'n ddirprwy aelod llywyddol), a

(b) mewn perthynas â phrif gyngor sy'n gweithredu gweithrediaeth maer a chabinet, yn cynnwys maer etholedig y cyngor;

mae i "arweinydd gweithrediaeth" yr un ystyr ag a roddir i "executive leader" yn adran 11(3)(a) o Ddeddf 2000;

ystyr "awdurdod tân ac achub" ("*fire and rescue authority*") yw awdurdod tân ac achub a gyfansoddwyd gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo;

ystyr "Deddf 1972" ("*1972 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70);

ystyr "Deddf 1983" ("*1983 Act*") yw Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (p. 2);

ystyr "Deddf 2000" ("*2000 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 2000 (p. 22);

ystyr "Deddf 2013" ("*2013 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (dccc 4);

ystyr "deddfiad" ("*enactment*") yw deddfiad pa bryd bynnag y'i deddfir neu y'i gwneir (gan gynnwys y Ddeddf hon);

ystyr "deddfwriaeth sylfaenol" ("*primary legislation*") yw—

(a) Mesur a basiwyd o dan Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32);

(b) Deddf a basiwyd o dan Ran 4 o'r Ddeddf honno;

(c) Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig;

ystyr "etholiad llywodraeth leol" ("*local government election*") yw etholiad ar gyfer cynghorwyr dros unrhyw ward etholiadol neu ward gymunedol yng Nghymru neu, yn achos cymuned yng Nghymru lle nad oes unrhyw wardiau, y gymuned, y cynhelir yr etholiad ar gyfer cynghorwyr ar ei chyfer o dan Ddeddf 1972;

mae "gweithrediaeth" ("*executive*") i'w dehongli yn unol ag adran 11 o Ddeddf 2000;

ystyr "gweithrediaeth arweinydd a chabinet" yw gweithrediaeth arweinydd a chabinet (Cymru) o fewn yr ystyr a roddir i "leader and cabinet executive (Wales)" yn adran 11(3) o Ddeddf 2000;

mae i "gweithrediaeth maer a chabinet" yr un ystyr ag a roddir i "mayor and cabinet executive" yn adran 11(2) o Ddeddf 2000;

mae i "maer etholedig" yr un ystyr ag a roddir i "elected mayor" yn adran 39(1) o Ddeddf 2000;

ystyr "Mesur 2009" ("*2009 Measure*") yw Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (mccc 2);

ystyr "Mesur 2011" ("*2011 Measure*") yw Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (mccc 4);

ystyr "pobl leol" ("*local people*"), mewn perthynas â phrif gyngor, yw pobl sy'n byw, yn gweithio neu'n astudio yn ardal y cyngor;

ystyr "prif gyngor" ("*principal council*") yw—

(a) y cyngor ar gyfer sir yng Nghymru;

(b) y cyngor ar gyfer bwrdeistref sirol (yng Nghymru);

mae i "trefniadau gweithrediaeth" yr un ystyr ag a roddir i "executive arrangements" yn adran 10 o Ddeddf 2000.

(2) Pan fo'r Ddeddf hon yn gosod dyletswydd i gyhoeddi hysbysiad neu ddogfen arall, rhaid i'r hysbysiad neu'r ddogfen arall gael ei gyhoeddi neu ei chyhoeddi—

(a) ar ffurf electronig, a

(b) mewn unrhyw fodd arall y mae'r person sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd yn ystyried ei fod yn briodol,

ac mae'r ddyletswydd i gyhoeddi'r hysbysiad neu'r ddogfen arall ar ffurf electronig yn ddyletswydd, pan fo gan y person hwnnw ei wefan ei hun, i'w gyhoeddi neu i'w chyhoeddi ar y wefan honno.